| Well-being of Future Generations Certificate Course introduction | Tystiolaeth Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Cyflwyniad i'r cwrs |
|---|---|
| **SLIDE ONE**<br>Hello, my name is Dr Carolyn Hayles and I am the Academic Lead for INSPIRE, the Institute of Sustainable Practice, Innovation and Resource Effectiveness here at UWTSD.<br>I'd like to take this opportunity to welcome you on to this University certificate on Sustainable Development and the Well-being of Future Generations and thank you for supporting this initiative.<br>INSPIRE is the University's hub for Sustainable Development activities. In my role as Academic Lead I support Education for Sustainable Development across the University's learning and teaching.<br>This University certificate has been developed to help you understand a bit more about Sustainable Development and what the Welsh Government are doing to promote Sustainable Development in Wales.<br>During the course of this certificate you will predominantly learn about Wales' Sustainable Development Law called the 'Well-being of Future Generations (Wales) Act'. We will take you through each of the Sustainable Development or Well-being goals and look at why they have been established and how they are going to be met. We will also look at how they relate to the United Nation's Sustainable Development Goals.<br>You will have an opportunity to consider what the goals mean for you, your studies and your future as a Welsh citizen. If you are not in Wales or not intending to stay in Wales on completion of your studies you will still benefit from taking the course as it will give you an insight into the United Nations Sustainable Development Goals.<br>http://www.un.org/sustainabledevelopment/sustainable-development-goals/<br><br>Each Well-being goal will be presented by a different member of academic staff from across UWTSD's schools and faculties.<br>At the end of each session there will be a short quiz for you to complete and a series of questions for you to discuss online with other students taking part in the certificate, these | **SLEID UN**<br>Helo, Dr Carolyn Hayles ydw i, a fi yw Arweinydd Academaidd INSPIRE, sef y Sefydliad Arfer Cynaliadwy, Arloesi ac Effeithiolrwydd Adnoddau yma yn Y Drindod Dewi Sant.<br>Hoffwn i achub ar y cyfle hwn i'ch croesawu chi i dystysgrif y Brifysgol ar Ddatblygiad Cynaliadwy a Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a diolch i chi am gefnogi'r fenter hon.<br>INSPIRE yw canolbwynt y Brifysgol ar gyfer gweithgareddau Datblygiad Cynaliadwy. Yn rhinwedd fy rôl yn Arweinydd Academaidd, rwy'n cefnogi Addysg ar gyfer Datblygiad Cynaliadwy ar draws dysgu ac addysgu'r Brifysgol.<br>Datblygwyd tystysgrif y Brifysgol i'ch helpu chi i ddeall ychydig yn fwy am Ddatblygiad Cynaliadwy a beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hyrwyddo Datblygiad Cynaliadwy yng Nghymru.<br>Yn ystod y dystysgrif hon, byddwch chi'n dysgu'n bennaf am Gyfraith Gynaliadwy Cymru o'r enw 'Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)'. Byddwn ni'n eich tywys chi fesul cam trwy'r amcanion Datblygiad Cynaliadwy neu Lesiant gan ystyried pam y penderfynwyd arnyn nhw a sut y maen nhw i'w cyflawni. Byddwn ni hefyd yn ystyried y berthynas rhyngddyn nhw ac Amcanion Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig.<br>Cewch chi gyfle i ystyried ystyr y nodau i chi, eich astudiaethau a'ch dyfodol yn ddinesydd Cymreig. Os nad ydych chi'n byw yng Nghymru nac yn bwriadu aros yng Nghymru ar ôl cwblhau eich astudiaethau, byddwch chi'n parhau i elwa o ddilyn y cwrs gan y bydd yn rhoi golwg i chi ar Amcanion Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig.<br>http://www.un.org/sustainabledevelopment/sustainable-development-goals/<br><br>Caiff pob nod llesiant ei gyflwyno gan aelod gwahanol o'r staff academaidd ar draws ysgolion a chyfadrannau'r Drindod Dewi Sant.<br>Erbyn diwedd pob sesiwn, bydd cwis byr i chi ei gwblhau a chyfres o gwestiynau i'w trafod ar-lein gyda myfyrwyr eraill sy'n cymryd rhan yn y |

| | |
|---|---|
| discussions will be moderated by the lead academic for that session.<br>I hope you enjoy taking part in this certificate.<br><br>**By way of an introduction to the course you can now watch a video on the 7 sustainable development or well-being goals, as illustrated and animated by students in our Swansea college of Art. You will need to click on the audio icon to hear the voiceover.** | dystysgrif, cymedrolir y trafodaethau hyn gan y prif academydd ar gyfer y sesiwn honno.<br>Gobeithio y mwynhewch gymryd rhan yn y dystysgrif hon.<br><br>**Er cyflwyniad i'r cwrs, bellach mae modd i chi wylio fideo ar y 7 nod datblygu cynaliadwy neu lesiant, wedi eu hegluro a'u hanimeiddio gan ein myfyrwyr ni yng Ngholeg Celf Abertawe. Bydd angen i chi glicio ar yr eicon sain i glywed y trosleisio.** |
| **SLIDE TWO**<br>So, there is a new Sustainable Development Law for Wales called the Well-being of Future Generations Act. This law commenced on 1st April 2016.<br>The Act is the first of its kind in the World, where the well-being of future generations is considered at the heart of Welsh Government decision making.<br>However the process started back in 2014 with the 'Wales We Want'.<br>The Wales We Want was a National Conversation – also the first of its kind – and helped inform this ground-breaking Well-being of Future Generations Act – one of a very small number of laws in the world that legislates for sustainable development. The conversation consisted of 20 events, 3 launch events, the recruitment of 150 Futures Champions, helping to bring together 6474 individuals, who took part in over 100 conversations across Wales resulting in almost 1000 responses in the form of reports, videos, postcards, drawings and surveys. There is a link to further information on this at the end of the session.<br>[http://www.thewaleswewant.co.uk/sites/default/files/Report%20-%20Recommendation%20for%20local%20service%20boards.pdf](http://www.thewaleswewant.co.uk/sites/default/files/Report%20-%20Recommendation%20for%20local%20service%20boards.pdf)<br>The law wants to make Wales a better place to live both now and in the future and this national conversation shaped the way forward. Megan's story, an animation explaining why it is so very important for Wales and its citizens to get behind the idea of sustainable development, can be found in the further resources section of this session. | **SLEID DAU**<br>Felly, mae Cyfraith Datblygiad Cynaliadwy newydd i Gymru o'r enw Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Daeth y gyfraith hon i rym ar 1 Ebrill 2016.<br>Hon yw'r Ddeddf gyntaf o'i bath yn y byd, lle ystyrir bod llesiant cenedlaethau'r dyfodol wrth wraidd y penderfyniadau a wna Llywodraeth Cymru.<br>Fodd bynnag, dechreuodd y broses yn ôl yn 2014, gyda'r 'Gymru a Garem'.<br>Sgwrs genedlaethol – y gyntaf o'i bath unwaith eto – oedd Y Gymru a Garem, a helpodd i lywio Deddf arloesol Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – un o'r ychydig gyfreithiau yn y byd sy'n deddfu o blaid datblygu cynaliadwy. Roedd 20 digwyddiad yn rhan o'r sgwrs, 3 digwyddiad lansio, recriwtio 150 o Hyrwyddwyr Dyfodol, gan helpu i gasglu at ei gilydd 6474 o unigolion, a gymerodd ran mewn dros 100 o sgyrsiau ar draws Cymru gan arwain at dros 1000 o ymatebion ar ffurf adroddiadau, fideos, cardiau post, darluniau ac arolygon. Mae dolen at wybodaeth bellach ynghylch hyn ar ddiwedd y sesiwn.<br>[http://www.thewaleswewant.co.uk/sites/default/files/Report%20-%20Recommendation%20for%20local%20service%20boards.pdf](http://www.thewaleswewant.co.uk/sites/default/files/Report%20-%20Recommendation%20for%20local%20service%20boards.pdf)<br>Mae'r gyfraith am wneud Cymru yn lle gwell i fyw ynddo ar hyn o bryd ac yn y dyfodol ac mae'r sgwrs genedlaethol hon wedi llunio'r ffordd ymlaen. I weld stori Megan, animeiddiad sy'n esbonio pam mae hi mor bwysig i Gymru a'i dinasyddion gefnogi'r syniad o ddatblygiad cynaliadwy, ewch i adran adnoddau pellach y sesiwn hon. |

| | |
|---|---|
| The Future Generations Act defines Sustainable Development in Wales as:<br>"The process of improving the economic, social, environmental and cultural well-being of Wales by taking action, in accordance with the sustainable development principle, aimed at achieving the well-being goals."<br>In other words, sustainable development means using the things we need to live our lives whilst making sure that there are still enough resources left for future generations.<br>The Well-being of Future Generations Act also ensures Wales will make a positive contribution to the achievement of the United Nations Sustainable Development Goals, through the introduction of seven well-being goals.<br>The goals encompass the need to act on the causes and adapt to the consequences of climate change, as well as ensuring that Wales is globally responsible in its actions. | Mae Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol yn diffinio Datblygu Cynaliadwy yng Nghymru yn y modd hwn:<br>"Y broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy weithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, gan anelu at gyrraedd y nodau llesiant."<br>Mewn geiriau eraill, ystyr datblygiad cynaliadwy yw defnyddio'r pethau y mae arnom ni eu hangen wrth sicrhau bod digon o adnoddau dros ben o hyd i genedlaethau'r dyfodol.<br>Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol hefyd yn sicrhau y bydd Cymru'n gwneud cyfraniad cadarnhaol i'r ymdrechion i gyflawni Nodau Datblygiad Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig, trwy gyflwyno'r saith nod llesiant.<br>Mae'r nodau'n cwmpasu'r angen i weithredu ar yr achosion a mabwysiadu canlyniadau'r newid yn yr hinsawdd, yn ogystal â sicrhau bod Cymru yn gyfrifol o safbwynt byd-eang am ei gweithredoedd. |
| The Law says that public bodies in Wales must think about people now and in the future when they make their decisions.<br>Wales has a lot of challenges. These include our response to:<br>Climate change<br>Poverty<br>Health inequalities<br>Employment prospects<br>In order to make improvements, public bodies must work together to determine what people need now, but also how the decisions that are made to improve lives now, impact on people's lives in the future.<br>There are 44 public bodies that must work together to deliver on the Act. These include:<br>Welsh ministers<br>Local authorities<br>Local health boards<br>Public health Wales NHS trust<br>Velindre NHS trust<br>National park authorities<br>Fire and rescue authorities<br>Natural resources Wales<br>The higher education funding council for Wales<br>The arts council of Wales<br>Sports council of Wales | Mae'r Gyfraith yn dweud bod rhaid i gyrff cyhoeddus yng Nghymru feddwl am bobl ar hyn o bryd ac yn y dyfodol pan fyddan nhw'n gwneud eu penderfyniadau.<br>Mae gan Gymru lawer o heriau. Mae'r rhain yn cynnwys ein hymateb i'r canlynol:<br>Y newid yn yr hinsawdd<br>Tlodi<br>Anghydraddoldebau iechyd<br>Gobeithion cyflogaeth<br>Er mwyn gwneud gwelliannau, rhaid i gyrff cyhoeddus weithio gyda'i gilydd i benderfynu ar yr hyn y mae angen i bobl ei wybod, ond hefyd sut y gwneir penderfyniadau i wella bywydau ar hyn o bryd, i effeithio ar fywydau pobl yn y dyfodol.<br>Mae 44 o gyrff cyhoeddus sy'n gorfod cydweithio i gyflawni'r Ddeddf. Mae'r rhain yn cynnwys:<br>Gweinidogion Cymru<br>Awdurdodau lleol<br>Byrddau iechyd lleol<br>Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru<br>Ymddiriedolaeth GIG Felindre<br>Awdurdodau'r parciau cenedlaethol<br>Yr awdurdodau tân ac achub<br>Cyfoeth Naturiol Cymru |

| | |
|---|---|
| National library of Wales<br>National museum of Wales<br><br><br>The Seven Sustainable Development or Well-being goals are as follows:<br>1. A Globally Responsible Wales - A nation which, when doing anything to improve the economic, social, environmental and cultural well-being of Wales, takes account of whether doing such a thing may make a positive contribution to global well-being.<br><br>2. A Prosperous Wales - An innovative, productive and low carbon society which recognises the limits of the global environment and therefore uses resources efficiently and proportionately (including acting on climate change), and which develops a skilled and well-educated population in an economy which generates wealth and provides employment opportunities, allowing people to take advantage of the wealth generated through securing decent work.<br><br>3. A Resilient Wales - A nation which maintains and enhances a biodiverse natural environment with healthy functioning ecosystems that support social, economic and ecological resilience and the capacity to adapt to change (for example climate change).<br><br>4. A Healthier Wales - A society in which people's physical and mental well-being is maximised and in which choices and behaviours that benefit future health are understood.<br><br>5. A more Equal Wales - A society that enables people to fulfil their potential no matter what their background or circumstances (including their socio economic circumstances).<br><br>6. A Wales of Cohesive Communities - Attractive, viable, safe and well-connected communities. | Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru<br>Cyngor Celfyddydau Cymru<br>Cyngor Chwaraeon Cymru<br>Llyfrgell Genedlaethol Cymru<br>Amgueddfa Genedlaethol Cymru<br><br>Y rhain yw'r Saith Nod Datblygiad Cynaliadwy neu Lesiant:<br>1. Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang – Cenedl sydd, wrth wneud unrhyw beth i wella llesiant cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn cymryd i ystyriaeth a fydd gwneud y fath beth yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i lesiant byd-eang.<br><br>2. Cymru Lewyrchus – Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol a charbon isel sy'n cydnabod cyfyngiadau'r amgylchedd byd-eang ac o'r herwydd yn defnyddio adnoddau'n effeithiol a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd), ac sy'n datblygu poblogaeth hyfedr ac addysgedig iawn mewn economi sy'n cynhyrchu iechyd ac sy'n darparu cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar gyfoeth a grëwyd trwy sicrhau gwaith gwerth chweil.<br><br>3. Cymru Gydnerth – Cenedl sy'n cynnal ac sy'n gwella amgylch naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach sy'n gweithredu sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol a'r gallu i addasu i newid (er enghraifft y newid yn yr hinsawdd).<br><br>4. Cymru Iachach – Cymdeithas lle cynyddir llesiant corfforol a meddyliol pobl ac y deellir dewisiadau ac ymddygiadau a fydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.<br><br>5. Cymru sy'n fwy cyfartal – Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth yw eu cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys amgylchiadau cymdeithasol economaidd).<br><br>6. Cymru o gymunedau cydlynus – Cymunedau deniadol, hyfyw, diogel gyda chysylltiadau da. |

| | |
|---|---|
| 7. A Wales of vibrant Culture and thriving Welsh Language - A society that promotes and protects culture, heritage and the Welsh language, and which encourages people to participate in the arts, sports and recreation.<br>8. We will look at each of these in turn over the coming weeks. https://futuregenerations.wales/ | 7. Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu – Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac sy'n amddiffyn diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg, ac sy'n annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, chwaraeon a hamdden.<br>8. Byddwn ni'n ystyried pob u o'r rhain yn ei dro dros yr wythnosau nesaf. https://futuregenerations.wales/ |
| The Act sets out five ways of working needed to achieve the seven wellbeing goals. These are designed to support sustainable decision-making. The Five Ways of Working are:<br>**Long-term -** Helping public bodies to plan and build insight as to what the future might look like if we achieve the goals, or fail to tackle the biggest problems facing future generations.<br>**Integration -** Public bodies must work together to understand their collective contribution to all seven of the well-being goals.<br>**Involvement -** between communities, individuals and their public services is crucial if we are to meet the needs of current and future generations.<br>**Collaboration -** to have a better understanding of how working together can benefit us all.<br>**Prevention** - of problems or early intervention in the first place are key to improving the lives of the people of Wales.<br>This approach provides an opportunity for innovative thinking, reflecting on the way we live our lives and what we expect of our public services. | Mae'r Ddeddf yn nodi pum dull o weithio yr oedd eu hangen i gyflawni'r saith nod llesiant. Dyluniwyd y rhain i gefnogi penderfyniadau cynaliadwy. Y Pum Dull o Weithio yw:<br>**Hirdymor –** Helpu cyrff cyhoeddus i gynllunio ac adeiladu canfyddiad ynghylch y math o ddyfodol y gellid ei ddisgwyl os llwyddwn i gyflawni'r nodau, neu os methwn ni â mynd i'r afael â'r problemau mwyaf y bydd cenedlaethau'r dyfodol yn eu hwynebu.<br>**Integreiddio –** Rhaid i gyrff cyhoeddus weithio gyda'i gilydd i ddeall eu cyfraniad cyffredinol i bob un o'r saith nod llesiant.<br>**Cynnwys –** mae gwneud hyn yn achos cymunedau, unigolion a'u gwasanaethau cyhoeddus yn hanfodol os bydd angen i ni ddiwallu anghenion cenedlaethau presennol ac yn y dyfodol.<br>**Cydweithio –** er mwyn deall yn well sut y gall cydweithredu fod o fudd i bawb.<br>**Atal** – mae atal problemau neu ymyriad cynnar yn y lle cyntaf yn allweddol o ran gwella bywydau pobl Cymru.<br>Mae'r dull hwn yn darparu cyfle ar gyfer meddwl yn arloesol, adfyfyrio ar y modd yr ydym yn byw ein bywydau a'r hyn a ddisgwyliwn gan ein gwasanaethau cyhoeddus. |
| There are 46 National indicators that have been established to measure Wales' progress. A link to these can be found at the end of the session. http://gov.wales/docs/desh/publications/160316-national-indicators-to-be-laid-before-nafw-en.pdf | Mae 46 dangosydd cenedlaethol wedi eu sefydlu i fesur cynnydd Cymru. Gellir cael dolen at y rhain ar ddiwedd pob sesiwn. http://gov.wales/docs/desh/publications/160316-national-indicators-to-be-laid-before-nafw-en.pdf |
| Finally, A Future Generations Commissioner has been appointed to oversee the Act. The commissioner's role is to ensure public bodies are working towards the wellbeing goals and to suggest improvements in the services provided. | I gloi, penodwyd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i oruchwylio'r Ddeddf. Rôl y comisiynydd yw sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn gweithio tuag at nodau llesiant ac awgrymu gwelliannau yn y gwasanaethau a ddarperir. |

| | |
|---|---|
| An annual report is published to demonstrate how public bodies are progressing and achievements made towards reaching the wellbeing goals.<br>You can find more information on the Act and the role of the commissioner's office by visiting their website, the link for which can be found in the resources section below:<br>https://futuregenerations.wales/ | Cyhoeddir adroddiad blynyddol i ddangos ble mae'r cyrff cyhoeddus arni a'r hyn a gyflawnwyd o ran cyrraedd y nodau llesiant.<br>Cewch chi ddarganfod rhagor o wybodaeth am y Ddeddf a rôl swyddfa'r comisiynydd trwy fynd i'w gwefan, y mae dolen ati yn yr adran adnoddau isod:<br>https://futuregenerations.wales/ |
| **SLIDE THREE**<br>As we travel through the course together you will learn a bit more about each of the seven sustainable development or well-being goals in more detail.<br>Each session will include:<br>A ten-minute video<br>Additional resources<br>Quizzes<br>Discussion topics for the certificate online forum. | **SLEID TRI**<br>Wrth i ni deithio trwy'r cwrs gyda'n gilydd, byddwch chi'n dysgu ychydig yn fwy am bob un o'r saith nod datblygu cynaliadwy neu lesiant yn fanylach.<br>Bydd pob sesiwn yn cynnwys:<br>Fideo deng munud<br>Adnoddau ychwanegol<br>Cwisiau<br>Pynciau trafod ar gyfer fforwm ar-lein y dystysgrif. |
| **SLIDE FOUR**<br>In order to obtain your certificate of participation for this course you are asked to upload seven reflective blogs of around 300 words each – one for each of the well-being goals that you will be learning about.<br>Your blog will act as a reflective journal of your journey through the certificate. Your posts should reflect upon lessons you have learned from this experience, and can be used to share your perspectives and opinions about the emerging themes presented.<br>You can also exchange your thoughts and ideas with other participants through online discussions, topics for which are posted by the academic moderators for the course.<br>Finally, it would be great if you chose to take some of your learning and turn it into practical action during Go-Green week.<br>Once you have uploaded all seven blogs and provided feedback on the course, you will be awarded your certificate of participation. | **SLEID PEDWAR**<br>Er mwyn i chi ennill y dystysgrif cyfranogaeth hon ar gyfer y cwrs hwn, gofynnir i chi lwytho saith blog fyfyriol o tua 300 o eiriau'r un - un ar gyfer pob un o'r nodau llesiant byddwch yn dysgu amdanynt.<br>Bydd eich blog yn gweithredu fel cyfnodolyn myfyriol o'ch taith drwy'r dystysgrif. Dylai'ch cyhoeddiadau ystyried y gwersi a ddysgwyd gennych o'r profiad hwn, a gellir eu defnyddio i rannu eich safbwyntiau a'ch barn am y themâu sy'n dod i'r amlwg.<br>Gallwch hefyd gyfnewid eich syniadau gyda chyfranogwyr eraill trwy drafodaethau ar-lein, ynglŷn â'r pynciau a chyhoeddwyd gan gymedrolwyr academaidd y cwrs.<br>Yn olaf, byddai'n wych pe baech yn dewis datblygu peth o'ch dysgu a'i droi'n gamau ymarferol yn ystod wythnos Mynd yn Werdd.<br>Unwaith byddwch wedi llwytho pob un o'r saith blog a rhoi adborth ar y cwrs, byddwch yn derbyn eich tystysgrif cyfranogaeth. |
| **SLIDE FIVE**<br><br>Here's some further reading to get you started.<br>You will find the Megan's story link below.<br>I hope you enjoy taking part in the certificate. | **SLEID PUMP**<br><br>I ddecrau, dyma ychydig o ddarllen pellach i chi.<br>Fe welwch ddolen at stori Megan isod. |

| | |
|---|---|
| Dr Carolyn Hayles<br>Academic Lead for INSPIRE<br>October 2017 | Gobeithio byddwch yn mwynhau cymryd rhan yn y dystysgrif.<br><br>Dr Carolyn Hayles<br>Arweinydd Academaidd ar gyfer INSPIRE<br>Hydref 2017 |